

PROFIAD MYFYRIWR GRADDEDIG DAN HYFFORDDIANT



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership



Georgia Keegan
Myfyriwr Graddedig dan
Hyfforddiant
2020-2023

Cynllun Rheolaeth i Raddedigion

"Ymunais â'r Cynllun Hyfforddi Rheolaeth i Raddedigion yn 2020, a oedd yn ystod pandemig Covid-19. Roeddwn yn bryderus ynghylch dechrau mewn sefydliad newydd a gweithio gartref, ond doedd dim angen i mi boeni. Roedd gen i rwydwaith cymorth gwych o'm cwmpas a dysgais i'n gyflym i gael y gorau o'r profiad hwn. Mae fy mhrofiad ym Mhartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru wedi bod yn gyffrous, yn ddiddorol, yn fewnwelediad ac yn werthfawr. Rwyf wedi dysgu llawer iawn, wedi mynd cyfarfodydd na fydden i wedi mynd iddynt fel arall, wedi cwrdd â phobl anhygoel ac ysbrydoledig ac wedi gweithio ar brosiectau diddorol. Enghraifft o brosiect rydw i wedi bod yn ddigon ffodus i fod yn rhan ohono oedd y cynllunio gweithredol o amgylch yr heriau logistaidd a gyflwynir gan Raglen Frechu'r hydref. Cefais fynediad at Arweinwyr Strategol y Byrddau Iechyd, aelodau o Lywodraeth Cymru, fferyllwyr ledled Cymru a chyfleoedd i weithio gyda nhw.

Cymerodd y Cynllun i Raddedigion 21 o raddedigion ymlaen rhwng y Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau, rhai yn cyflogi un person graddedig ac eraill yn cymryd mwy. Yn ogystal â gweithio yn ein sefydliadau sydd wedi'u lletya, rydym yn dilyn cwrs meistr mewn Arweinyddiaeth Iechyd Gymhwysol ym Mhrifysgol De Cymru, sydd yn gysylltiedig ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer Hyfforddeion Rheolaeth Graddedig sy'n gweithio yn y GIG. Mae'n gwrs ar-lein a dim ond 21 o raddedigion sy'n rhan ohono. Mae hyn wedi ein galluogi i deilwra ein dysgu o amgylch ein profiadau a chreu rhwydwaith cryf.

Rwyf yn fy lleoliad olaf yn fy mlwyddyn olaf ac mae wedi bod yn brofiad gwych! Rwyf wedi dysgu sgiliau newydd ac mae fy hyder wedi datblygu hefyd. Rwyf bellach yn gwybod yr hyn sydd wir o bwys i mi yn y GIG ac rwy'n gyffrous nawr i gael swydd a pharhau â'm taith. Os ydych yn ystyried gwneud cais ar gyfer y Cynllun i Raddedigion, baswn i'n eich annog chi i wneud hynny, gan ei fod yn brofiad heb ei ail! Mae gennych fynediad i bob maes, i ofyn cwestiynau, i gwrdd ag ystod o bobl ar bob lefel. Rwyf wedi cael y cyfle i weithio yn y tîm cynllunio yn Llywodraeth Cymru ac mae wedi bod yn gyfle gwych. Rwyf wedi cael mynd i gyfarfodydd gweithredol a datblygu fy ngwybodaeth am y Llywodraeth a'i phartneriaeth â'r GIG.

Mae fy nhaith yn parhau ac rwy'n gyffrous am yr hyn sydd i ddod. Fy nghyngor i unrhyw hyfforddai graddedig newydd yw y dylech chi fachu ar bob cyfle a gewch a bod yn agored i unrhyw beth a ddaw i'ch rhan. Crëwch gysylltiadau, rhwydweithio, a dysgu gymaint ag y gallwch ar y cynllun hwn, mae'n gyfle gwych!"



Grando a Dysgu



Cymryd Cyfrifoldeb



Gweithio Gyda'n Gilydd



Arloesi

Gwerthoedd craidd PCGC